**PWYLLGOR CABINET RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 25 Mehefin 2020 am 11.00 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cynghorydd P Jarman

**125 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**126 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2020 yn rhai cywir.

**127 Rhaglen Waith Y Cabinet**

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ddrafft o'r rhaglen waith tri mis ar gyfer Blwyddyn Estynedig y

Cyngor 2019-20, gan gymryd y caiff Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ei gynnal ym mis Medi 2020. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y rhaglen waith yn amlinellu'r diweddariadau parhaus o ran ymateb y Cyngor i Covid-19, ac eglurodd y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod nesaf ar 26 Gorffennaf 2020.

Gofynnodd yr Arweinydd a fyddai modd ychwanegu dau adroddiad ynghylch y llifogydd yn RhCT at y rhaglen waith er mwyn eu trafod yn y dyfodol.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd y rhaglen, gan nodi y byddai angen iddi hi fod yn hyblyg o gofio'r sefyllfa sydd ohoni.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20 a derbyn diweddariad pellach fesul tri mis. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith estynedig ar gyfer cyfnod Mehefin-Awst 2019-2020 (gyda diwygiadau addas lle bo hynny'n angenrheidiol) a derbyn diweddariad fesul tri mis; a
2. Derbyn adroddiad dros dro ynglŷn â llifogydd yn Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'r gofynion adrodd statudol o ran llifogydd, a gaiff eu trafod ar adeg arall.

**128 Adolygiad o Ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol**

Darparodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybodaeth i'r Aelodau am ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu darpariaeth Dosbarthiadau Cymorth Dysgu (DCD) prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT). Eglurwyd fod argyfwng Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar allu'r Cyngor i gynnal ymgynghoriad ar y mater dan sylw, ac felly, cafodd dull gweithredu mwy hyblyg ei gynnig. Cynigiodd y Cyfarwyddwr y dylid arallgyfeirio'r cyllid er mwyn sefydlu darpariaeth amgen mewn pedair ysgol wahanol, a hynny er mwyn diwallu anghenion y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed o'r gymuned leol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn falch o gefnogi'r cynnig o ystyried y sefyllfa sydd ohoni, a nododd y byddai'n cefnogi dysgwyr agored i niwed mewn ysgolion prif ffrwd. Roedd yr Aelod o'r Cabinet hefyd yn falch o nodi y byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth ym mhob ardal yn RhCT tra hefyd yn rhoi cyfle i bob ysgol wneud cais. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i nodi yr hoffai hi weld ysgolion yn cyflwyno ceisiadau ar y cyd, a fyddai'n golygu bod modd ymestyn y cyllid yma, sydd er budd disgyblion agored i niwed, ymhellach.

Yn dilyn cwestiwn ynglŷn â pha gymorth a gaiff ysgolion wrth wneud cais, eglurodd y Cyfarwyddwr fod proses drylwyr ar waith eisoes, a bydd hon yn destun gwaith pellach. Eglurwyd y byddai angen i ysgolion gyflwyno achos busnes manwl, gydag elfen o gyllid cyfatebol, ac y byddai hwn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod e'n bodloni'r meini prawf.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad;
2. Anwybyddu'r broses ymgynghori wreiddiol o ganlyniad i gyfyngiadau

Covid-19 a'r effaith ar ddarpariaeth addysgol statudol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy;
3. Bwrw ymlaen â chynllun i ddarparu cyllid am ddwy flynedd i dair ysgol uwchradd Saesneg er mwyn sefydlu darpariaeth i ddysgwyr sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Bryncelynnog, Ysgol Gymuned Glynrhedynog ac Ysgol Aberpennar;
4. Bwrw ymlaen â chynnig diwygiedig i ddarparu cyllid am ddwy flynedd er mwyn sefydlu darpariaeth uwchradd Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gartholwg.

**129 Cynnig i Ymestyn ac Amrywio Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus CBS RhCT mewn perthynas â Mesurau Rheoli Cŵn**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol at y ddau Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n ymwneud â mesurau rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf, a nododd fod disgwyl iddyn nhw ddod i ben ar 30 Medi 2020. Ceisiodd y Cyfarwyddwr gefnogaeth y Cabinet er mwyn ymestyn y gorchmynion yma mewn egwyddor, yn ogystal â galluogi swyddogion i gyhoeddi'r gorchmynion arfaethedig a chynnal ymgynghoriadau yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, yn ôl yr angen.

Er gwaethaf cyflwyno'r Gorchmynion yma yn 2017, eglurodd y Cyfarwyddwr fod nifer fach o berchnogion yn dal i beidio â chodi baw eu cŵn na'u cadw nhw dan reolaeth. Mae hyn yn dangos fod gwir angen ymestyn y Gorchmynion yma, a fyddai fel arall yn dod i ben ar 30 Medi 2020. Bwriad hyn yw dal ati i sicrhau'r effaith gadarnhaol y mae'r gorchmynion wedi'i chael o ran materion baw cŵn.

Nododd y Cyfarwyddwr nad oedd y cynnig yn cynnwys unrhyw amrywiadau sylweddol, ac eithrio ymestyn y gorchymyn fel ei fod hefyd ar waith mewn nifer o leoliadau sydd dan ofal Cynghorau Cymuned - a hynny ar eu cais nhw.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth yn falch o gefnogi'r estyniad, gan nodi bod llawi o faw cŵn ar y stryd ers penderfyniad y Cabinet yn 2017. Cafodd hyn ei nodi mewn Adroddiad Archwilio Allanol diweddar.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol ei fod e hefyd yn cefnogi'r cynigion, gan ddweud bod baw cŵn yn fater y mae trigolion yn ei godi'n aml, a bod nifer fach o bobl yn dal i anwybyddu'r rheolau.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod hwn yn gyfle i ymgynghori â'r Cynghorau Cymuned a mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau o ran y gorchmynion. Nododd hefyd fod angen i'r rheiny sy'n gyfrifol am brydlesi caeau chwaraeon i ddarparu arwyddion priodol ar gyfer y cyhoedd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:
1. Cymeradwyo, mewn egwyddor, y cynnig i ymestyn ac amrywio'r ddau Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar fesurau rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf am dair blynedd arall o 1 Hydref 2020, yn y ffurflen a nodir yn Atodiad B1 a B2 o'r adroddiad;
2. Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r gorchmynion arfaethedig a chynnal ymgynghoriad yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu

a Phlismona 2014; a

3. Derbyn adroddiad pellach yn manylu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw argymhellion ar gyfer diwygiadau i'r gorchmynion arfaethedig.

**130 Prosiectau Isadeiledd y Cyngor - Cefnogi'r Economi Leol yn ystod y Coronafeirws**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu'r newyddion diweddara i'r Cabinet mewn perthynas â'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod prosiectau isadeiledd ac adeiladu allweddol yn parhau i gael eu cyflawn mewn modd diogel yn ystod pandemig COVID 19, a hynny er mwyn cefnog busnesau a'r economi leol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwasanaethau ym mhob rhan o'r Cyngor wedi da ati i ganolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni prosiectau buddsoddi allweddol yr ystod y pandemig. Tynnodd sylw'r Aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad, lle'r oedd rhestr gynhwysfawr wedi'i hamlinellu. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau ym meysydd priffyrdd, adfywio ac addysg, a gwaith hanfodol ar adeiladau, yn ogysta â'r rhaglen amrywiool o ran tai cymdeithasol, a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid RSL. Eglurwyd bod y prosiectau werth mwy na £200 miliwn, a'u bod wedi cefnog mwy na 200 o swyddi, yn ogystal â sicrhau llawer yn rhagor wrth i'r prosiectau fynd rhagddynt a thrwy gadwyni cyflenwi.

Yn ogystal â'r prosiectau cyfredol sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad dan sylw dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiad pellach, sy'n manylu ar brosiectau allweddol, yn dod gerbron y Cabinet yn y dyfodol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am gyflwyno'r adroddiad, a chyfeiriodd a Raglen Gyfalaf gynhwysfawr y Cyngor, a fydd yn helpu'r economi leol i symud ymlaen yn dilyn y pandemig. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y sgyrsiau ynglŷn â chyhoeddiad Llywodraeth San Steffan y byddai'n darparu pecyn ysgogi dros y misoedd nesaf, a nododd y byddai ychwanegu at Raglen Cyfalaf RhCT yn hollbwysig.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai ar y cyfle ddiolch i swyddogion a busnesau am gydweithio i gyflawni'r prosiectau yma Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet yr adroddiad, gan nodi bod y dull gweithredu a draws awdurdodau'n hollbwysig er mwyn cynnal swyddi ar hyn o bryd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod yr wybodaeth a ddarparwyd a nodi'r camau a gymerwyd hyd yma e mwyn dal ati i gyflawni prosiectau isadeiledd ac adfywio gwerth £200 miliwn allweddol, gan gynnal mwy na 200 o swyddi, yn ystod pandemig COVID 19; a
2. Y caiff adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet nesaf, sy'n amlinellu' camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a phartneriaid yn y sector preifat, e mwyn lleihau effaith economaidd COVID-19 ar yr economi leol a rhanbarthol.

**131 Mannau Mwy Diogel - Cadw Pellter Cymdeithasol yng Nghanol Trefi ac mewn Mannau Cyhoeddus yn ystod y Coronafeirws**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu adroddiad i'r Cabine mewn perthynas â'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd i helpu ein cymuned gynnal pellter cymdeithasol diogel wrth ymweld â'n canol trefi a'n parciau yn ystod pandemig cyfredol COVID 19.

Nododd y Cyfarwyddwr fod cwymp sylweddol yn nifer yr ymwelwyr â chanol tref pan roddwyd y cyfyngiadau symud ar waith. Serch hynny, mae'r nifer yma wed cynyddu'n raddol dros yr wythnosau diwethaf.

Tynnodd sylw'r Aelodau at adran 5 yr adroddiad, sy'n amlinellu'r cynnydd hyd yma yn ogystal â'r dull 'arwyddion a llinellau' y mae'r Cyngor wedi'i roi ar waith er mwyn sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol diogel mewn mannau cyhoeddus.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, ymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman y cyfarfod ar-lein)

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y newid diweddar i'r rheol 2 fetr yn Lloegr, a nododd y byddai angen i awdurdodau lleol gael gwybod am unrhyw newidiadau tebyg gan Lywodraeth Cymru mewn da bryd fel bod modd diwygio'r arwyddion yn ôl y angen. O ran effaith ariannol creu arwyddion newydd ar y Cyngor, dywedodd y Arweinydd y byddai'r Cyngor yn hawlio arian gan gynllun cymorth Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai i'r swyddogion am eu gwaith o ran sicrhau bod canol y trefi'n ddiogel fel bod modd i'r cyhoedd ymweld â busnesau wrth iddyn nhw ddechrau ailagor. Roedd yr Aelod o'r farn fod y dull gweithredu'n ymarferol, a nododd y byddai angen monitro canol trefi wrth i'r sefyllfa ddal ati i newid. Holodd yr Aelod o'r Cabinet p'un a gafwyd unrhyw adborth gan fasnachwyr lleol ar ôl iddyn nhw ailagor yn ddiweddar. Dywedwyd wrtho fod y diwrnod cyntaf pan ailagorodd y busnesau wedi bod yn brysur, ond bod pethau wedi dechrau tawelu erbyn hyn. Dywedodd y cyfarwyddwr y byddai adroddiad adborth mwy manwl yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol.

PENDERFYNODD **y Cabinet:**

1. Trafod yr wybodaeth a ddarparwyd a nodi'r camau a gymerwyd hyd yma o ran ymateb i bandemig COVID-19;
2. Y byddai'r Cyfarwyddwr Cyfadran - Materion Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen yn cadw golwg ar y sefyllfa'n gyson er mwyn sicrhau bod canol ein trefi a mannau cyhoeddus yn ddigon diogel, yn ogystal â chyflwyno mesurau ychwanegol a/neu fesurau gorfodi yn ôl y angen, ar y cyd â'r Aelodau perthnasol o'r Cabinet, er mwyn atal ymlediad y Coronafeirws.

**132 Adeiladau Mwy Diogel - Cadw Pellter Cymdeithasol a Mesurau Diogelwch Eraill yn Swyddfeydd y Cyngor, Ysgolion ac Adeiladau Cyhoeddus Eraill wrth i'r Cyfyngiadau Symud gael eu Llacio.**

Darparodd Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor y newyddion diweddaraf â'r Cabinet mewn perthynas â'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod modd agor adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion i Aelodau, staff, disgyblion a'r cyhoedd mewn modd diogel gan gynnal pellter cymdeithasol diogel a mesurau diogelwch addas eraill yn ystod pandemig cyfredol COVID 19.

Clywodd Aelodau'r Cabinet fod canllawiau cynhwysfawr a phosteri wedi'u llunio e

mwyn cefnogi'r gwaith o ailagor ysgolion ac adeiladau cyhoeddus yn unol â' rheoliadau, a bod staff wedi derbyn copïau mewn e-bost. Mae'r canllawiau a' posteri yma hefyd ar gael ar wefan RCT Source.

Nododd y Cyfarwyddwr fod holl adeiladau'r Cyngor wedi bod yn destun arolwg e mwyn nodi'r nifer uchaf o bobl y mae modd iddyn nhw eu dal, ac mae pecynnau Covid-19 priodol, sy'n cynnwys arwyddion, tâp diogelwch, biniau, diheintydd a sgriniau diogelwch. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i egluro bod offer gwiric tymheredd hefyd yn cael ei ddefnyddio yn rhai o adeiladau'r Cyngor, ac ysgolion ar gyfnod prawf. Os yw'r cyfnod praw yma'n llwyddiannus, yna bydd hyn yn fesu ychwanegol a gaiff ei ddefnyddio i atal ymlediad y feirws.

Daeth y Cyfarwyddwr â'r sgwrs i ben drwy nodi bod RhCT mewn sefyllfa dda ailagor ei adeiladau wrth i'r cyfyngiadau lacio. Serch hynny, nododd ei bod hi'r anochel y byddai angen i ysgolion a gwasanaethau unigol addasu'u canllawiau e mwyn diwallu'u hanghenion penodol nhw, yn dibynnu ar yr adeilad dan sylw.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol yn awyddus ddiolch i'r garfan Eiddo Corfforaethol a'r athrawon am eu gwaith sylweddol wrth ymgyfarwyddo â'r drefn newydd yma. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y bydda angen adolygu'r cynnydd o ran gweithio hyblyg a'i gynnwys yn rhan amlwg c gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod yr wybodaeth a ddarparwyd a nodi'r camau a gymerwyd hyd yma c ran ymateb i bandemig COVID-19;
2. Y byddai'r Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd e mwyn sicrhau bod yr ysgolion y gwasanaethau a'r swyddfeydd sy'n ailago yn ddiogel ar gyfer staff, disgyblion a'r cyhoedd, a chyflwyno unrhyw fesurau ychwanegol/mesurau gorfodi ar y cyd â'r Aelodau perthnasol o' Cabinet er mwyn atal ymlediad y Coronafeirws.

**133 Goblygiadau Ariannol Covid-19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol adroddiad sy'n cyflwyno asesiad cychwynnol o'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig ag argyfwng Covid-19 ar gyfer y Cyngor.

Nododd y Cyfarwyddwr fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnal arolwg gyda'r bwriad o amcangyfrif effaith ariannol y feirws ar y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru rhwng Ebrill a Mehefin 2020. Roedd yr arolwg yn amcangyfrif mai'r gost ar gyfer Cymru gyfan yw £185 miliwn, a'r gost ar gyfer RhCT yw £13.6 miliwn.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at adran 5.4 yr adroddiad, sy'n rhestru nifer o gostau newydd y mae'r Cyngor yn cadw golwg arnyn nhw. Eglurodd y Cyfarwyddwr y byddai'r gwaith o ragweld yr effaith ariannol y tu hwnt i'r tymor byr yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau sy'n newid yn gyson, ond dywedodd ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor ddal ati i leihau'r effaith ariannol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o ffrydiau cyllido ar waith er mwyn lleihau'r baich ariannol ar Awdurdodau Lleol, a'i fod wedi dechrau ad-dalu rhywfaint o'r costau ychwanegol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad, a nododd fod

trafodaethau'n dal i gael eu cynnal ynglŷn â chyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod CLlL yn dal i lobïo Llywodraeth San Steffan am gyllid ariannol. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai hi'n ddoeth cynnal adolygiad canol blwyddyn o'r gyllideb er mwyn sicrhau bod rhywfaint o gyllid wrth gefn os nad yw'r Cyngor yn derbyn yr holl arian yn ôl, a phwysleisiodd ei bod hi'n bwysig i bob maes gwasanaeth nodi lle mae modd arbed arian dros y misoedd nesaf.

Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol â sylwadau'r Arweinydd, gan nodi y caiff Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau Chwarter 4 ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi effaith ariannol Covid-19 ar y Cyngor;
2. Derbyn Adolygiad Canol Blwyddyn o'r Gyllideb ym mis Medi, yn ogystal â Chynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig a dros dro;
3. Nodi'r trefniadau ar gyfer paratoi ac archwilio'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/20.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am**

**Y Cynghorydd A Morgan**
**Cadeirydd.**